# EVANS, SAMUEL ('Gomerydd '; 1793 - 1856), golygydd

**Enw:** Samuel Evans
**Ffugenw:** Gomerydd
**Dyddiad geni:** 1793
**Dyddiad marw:** 1856
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** golygydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Walter Thomas Morgan

Ganwyd yn Llwyn-y-piod, ger St Clears. Yn 1807 prentisiwyd ef gydag Evans, argraffydd, Caerfyrddin. Pan fu farw Joseph Harris ('Gomer') yn 1825 symudwyd swyddfa *Seren Gomer* o Abertawe i Gaerfyrddin, ac yn 1827 penodwyd Samuel Evans yn gyd-olygydd â D. D. Evans, ond llanwodd y swydd ei hun o 1835 hyd 1850, pryd y cyfrifid ef yn un o brif newyddiadurwyr Rhyddfrydol ei ddydd. Yn 1852 ymunodd â swyddfa William Owen yng Nghaerdydd, ac yno golygodd *Seren Cymru* hyd ddiwedd 1852, pan orffennwyd ei chyhoeddi, a'r *Bedyddiwr* o 8 Tachwedd 1854 hyd ei farwolaeth. Yr oedd hefyd yn ysgolhaig Cymraeg. Yn 1839 cyhoeddodd argraffiad diwygiedig o *Eiriadur* Dr. William Richards o Lynn, ac yn 1840 penodwyd ef gan Gymreigyddion y Fenni yn aelod o bwyllgor o bump a ddewiswyd i ddiwygio orgraff yr iaith Gymraeg. Ni chyfarfu'r pwyllgor erioed, ond cyhoeddodd Evans ei sylwadau ei hun ar y pwnc mewn cyfres o lythyrau yn *Seren Cymru* yn 1852 a gyhoeddwyd wedyn yn 1854 dan y teitl *Y Gomerydd*. Golygodd hefyd *Y Cymro Bach*, 1855, casgliad o weithiau Benjamin Price, a chyfieithodd lawer o esboniad y Dr. Gill yn y Gymraeg. Bu farw yng Nghaerdydd 30 Awst 1856, a chladdwyd ef ym mynwent y Tabernacl (eglwys y Bedyddwyr), lle yr oedd yn aelod.

## Awdur

**Walter Thomas Morgan**, (1912 - 1990)

## Ffynonellau


*Y Bedyddiwr*, 1856, 316

*Yr Haul*, 1856, 324

*Seren Gomer*, 1856, 476

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1891, 184

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad* (1893), 84, 95-6


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734388

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu